
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	08.03.23
Pwnc / Subject:	Newidiadau i'r trefniadau apelau derbyn i ysgolion

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Ein safbwynt cyffredinol yw, er y byddem yn cefnogi'r newidiadau a awgrymwyd, ni fyddem eisiau i unrhyw grwpiau ddioddef yn sgil y newidiadau arfaethedig na bod dan anfantaïs o'u herwydd. Gallai enghraifft o hyn gynnwys teuluoedd incwm isel nad ydynt efallai'n cael cyfle i ddefnyddio technoleg addas i'w galluogi i gymryd rhan yn y broses apelau o bell. Dylid trefnu darpariaeth addas ar gyfer y teuluoedd hyn. Yn ychwanegol, dylai teuluoedd y mae'r Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt allu manteisio ar gyfleusterau cyfieithu / cyfieithu ar y pryd i'w galluogi i ddeall a chymryd rhan yn y broses apelio gyfan. Dylid trefnu'r ddarpariaeth hon i'w harwain trwy'r broses gyfan ac nid yn unig gwrandawriad yr apêl, fel mae'n ymddangos sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno bod Rheoliadau 2005 a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn cynnwys opsiwn dros gynnal apelau o bell?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Os ydych chi'n anghytuno, awgrymwch gynigion amgen neu roi fwy o adborth.

Sylwadau ategol

Rydym yn cefnogi'r ffaith y dylai fod yna opsiwn dros gynnal apelau o bell. Mae awdurdodau lleol wedi adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru fod buddion wedi bod i'r trefniadau dros dro hyn o ran arbed amser a chostau. Mae'n ymddangos bod adborth gan rieni i awdurdodau lleol yn cefnogi'r cynnig hefyd. Byddai'n ddefnyddiol ystyried y dystiolaeth yn uniongyrchol gan rieni ar eu barn ar y trefniadau hyn trwy'r ymgynghoriad hwn, er y gallai hyn fod yn eithaf cyfyngedig oherwydd nad yw'r gynulleidfa darged y sonnir amdani yn y cod drafft diwygiedig yn cynnwys rhieni nac apelyddion.

Rydym yn cytuno y gallai hyn gefnogi cynrychiolaeth well yn y gwrandawriadau hyn.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod y fformatau canlynol yn caniatáu ar gyfer gwrandawriad teg a thryloyw i apêl?

Fformat	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Wyneb yn wyneb	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
O bell (ffôn)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
O bell (cynhadledd fideo)	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyflwyniad ysgrifenedig	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Sylwadau ategol

Gall cynhadledd wyneb yn wyneb a chynhadledd fideo alluogi rhieni i gynrychioli eu barn yn fwy cywir. Hefyd, yn aml, gall ciwiau'r wyneb, cliwiau emosïynol a chiwiau llafar gyfleu negeseuon sy'n cael eu colli trwy ddefnyddio fformatau eraill. Byddai cyflwyniadau dros y ffôn a chyflwyniadau ysgrifenedig yn ddefnyddiol fel opsiwn amgen pan nad yw cynhadledd wyneb yn wyneb a chynhadledd fideo yn bosibl oherwydd amgylchiadau rhieni.

Cwestiwn 3i – Ydych chi'n cytuno mai awdurdodau derbyn ddylai wneud y penderfyniad ynghylch p'un a ddylid cynnig gwrandawiadau apêl wyneb yn wyneb, o bell neu roi dewis i fynychwyr am y naill neu'r llall?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Os ydych chi'n anghytuno, awgrymwch pwy ddylai wneud y penderfyniad.

Sylwadau ategol

Gan fod dewis ysgol yn ddewis eithriadol o bwysig i rieni, credwn mai rhieni ddylai benderfynu p'un a ddylid cynnal gwrandawiadau'r apêl wyneb yn wyneb neu o bell. Yn ychwanegol, rydym o'r farn y dylid trafod dyddiad gwrandawriad yr apêl gyda rhieni er mwyn iddynt wneud y trefniadau angenrheidiol i fynychu a sicrhau eu bod yn gallu mynd â ffrind, aelod o'r teulu neu rywun arall i fod yn gefn iddynt yn y gwrandawriad, os bydd angen. Hefyd, dylid trefnu bod cyfieithydd ar gael os yw rhieni'n gofyn am hynny. Credwn y bydd hyn yn darparu ymagwedd gyson ar draws awdurdodau derbyn.

Cwestiwn 3ii – Pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn?

Dylai'r awdurdodau derbyn sicrhau cysylltiad agos â rhieni i sicrhau bod eu dewis ynghylch gwrandawriad yr apêl yn cael ei fodloni a bod y dechnoleg angenrheidiol ar gael i rieni os yw'r gwrandawriad yn cael ei gynnal o bell. Ni ddylai rhieni fod dan anfantais os nad oes ganddynt yr offer angenrheidiol i gynnal y sesiwn o bell, a dylid ystyried sut gallent elwa ar offer addas dros dro / ar fenthyg.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno y dylai apelau a gynhelir yn gyfan gwbl dros y ffôn gael eu cyfyngu i ble na ellir defnyddio cynhadledd fideo am resymau sy'n gysylltiedig â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cyn ystyried cynnal apelau yn gyfan gwbl dros y ffôn, dylai'r awdurdodau derbyn ystyried sut gallant sicrhau hygyrchedd addas ar gyfer rhieni y byddai'n well ganddynt gynhadledd fideo, ond nid oes ganddynt y dechnoleg neu'r cysylltedd angenrheidiol i'w galluogi i wneud hynny. Er enghraifft, yn ystod y pandemig, rhoddodd ysgolion fenthyg gliniaduron a dyfeisiau rhyngwyd symudol i rieni o aelwydydd incwm isel i sicrhau nad oeddent dan anfantais o ran addysg eu plant, ac i helpu lleihau effaith tlodi ar y teuluoedd hyn.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid ond ystyried apelau ar sail tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd naill ai:

- a) lle nad yw'r swyddog cyflwyno yn mynychu, a bod y panel apelio yn fodlon ei fod yn gallu datrys yr achos trwy ddefnyddio tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr awdurdod derbyn, os na fydd yr apelydd dan anfantais trwy wneud hynny?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

neu

- b) lle mae'r apelydd yn methu neu ddim yn gallu mynychu a'i bod yn anymarferol cynnig dyddiad arall?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Dylai'r ddogfen ymgynghori ddiffinio'n glir yr hyn a olygir gan "mae'r panel apelio yn fodlon y gall ddatrys yr achos trwy ddefnyddio tystiolaeth wedi'i chyflwyno gan yr awdurdod derbyn, os na fydd yr apelydd dan anfantais yn gwneud hynny". Os yw'n golygu y bydd yr apêl yn llwyddiannus, ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig, yna mae angen dweud hyn yn glir. Os na, yna mae angen i'r ddogfen amlinellu'n glir sut yn union y bydd yr apelydd ddim dan anfantais.

Os bydd apelydd yn methu mynychu, dylid ystyried y rhesymau dros ddiffyg presenoldeb. Gall materion eraill fel iechyd neu argyfyngau teuluol weithiau gymryd blaenoriaeth dros fynychu cyfarfod. Hefyd, mae angen i'r ddogfen ymgynghori ddiffinio'n gliriach yr hyn a olygir o ran bod "yn anymarferol cynnig dyddiad arall". Er enghraifft, i bwy mae'n anymarferol? Dylid trafod dyddiad arall, o fewn rheswm, gyda'r apelydd i wneud yn siŵr nad yw'n anymarferol.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylai gwrandawiaid apêl hybrid fod yn opsiwn? (O ran 'hybrid', rydym yn golygu pan fydd un cyfranogwr neu fwy yn ymuno o bell, trwy gynhadledd fideo neu dros y ffôn, ac un neu fwy yn mynychu wyneb yn wyneb.)

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Byddem yn cytuno y dylai gwrandawiadau apêl hybrid fod yn opsiwn, a dylid ystyried sut y gellid cefnogi'r apelydd fel nad yw dan anfantais mewn unrhyw ffordd, er enghraifft os nad yw'r apelydd yn gallu manteisio ar gyfleusterau fideo gynadledda addas.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno y gellir cynnal gwrandawiadau apêl hybrid mewn ffordd deg a thryloyw sy'n galluogi'r apelydd a'r swyddog cyflwyno i gyflwyno'u hachos?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno â hyn, yn ddarostyngedig i'n sylwadau ategol ar gyfer cwestiwn 6 uchod.

Cwestiwn 8 (ar gyfer awdurdodau lleol) – Ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at gostau / arbedion newydd ar gyfer awdurdodau lleol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Esboniwch pam a pha amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau / arbedion ychwanegol hyn – gallai hyn gynnwys costau / arbedion o ran y sefydliad, staffio, lleoliad, teithio a thechnoleg, er enghraifft.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9 (ar gyfer ysgolion) – Ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Apelau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau / arbedion i ysgolion?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Esboniwch pam a pha amcangyfrif y gellir ei wneud o'r costau / arbedion ychwanegol hyn – gallai hyn gynnwys costau / arbedion o ran y sefydliad, staffio, lleoliad, teithio a thechnoleg, er enghraifft.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 10 – Bydd mân newidiadau drafftio technegol yn cael eu gwneud hefyd i sicrhau bod y Cod Apelau yn gyfoes – mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer addysgol eraill ac enwau adrannol. Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ar y newidiadau arfaethedig.

Sylwadau ategol

Ni fyddai gennym unrhyw broblemau â mân newidiadau drafftio technegol sy'n cael effaith fach iawn, os o gwbl, ar y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion cyffredinol.

Cwestiwn 11 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig i ganiatáu i wrandawiadau apêl gael eu cynnal o bell neu wyneb yn wyneb yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Dylai fod yn ddisgwyliad i bawb sy'n gysylltiedig fod opsiwn i gynnal gwrandawiadau apêl o bell neu wyneb yn wyneb yn Gymraeg os yw'r apelydd yn dymuno. Hefyd, dylid cyfleu'r disgwyliad hwn yn glir ac mewn ffordd sy'n golygu y gall y rhai sy'n cymryd rhan yn y gwrandawriad ddewis y naill iaith neu'r llall mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu neu'n unochrog.

Cwestiwn 12 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ganiatáu i wrandawiadau apêl gael eu cynnal o bell neu wyneb yn wyneb er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Dylai'r dogfennau apelau derbyn ei gwneud yn glir fod unrhyw ohebiaeth, gan gynnwys apelau, p'un a ydynt o bell neu wyneb yn wyneb, yn gallu bod trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylid darparu cyfleusterau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd addas i sicrhau bod hyn yn gallu digwydd.

Cwestiwn 13 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae gennym bryderon nad yw'n ymddangos bod yr asesiad o'r effaith wedi ystyried sut gallai'r cynnig hwn effeithio ar y rhai sydd o aelwydydd incwm isel, ac nid yw wedi ystyried yn eglur y rhai â nodweddion gwarchoddedig chwaith, er enghraifft y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu'r rhai nad ydynt efallai'n siarad Saesneg neu Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

